## Hysbysiad Prosesu Teg

## Arian yn Ôl am Glytiau Go Iawn, Amgylchedd ac Argyfyngau Sifil

### 1. Pam ydym ni'n casglu a chadw eich gwybodaeth bersonol?

Casglwn a defnyddiwn eich gwybodaeth bersonol er mwyn i ni allu prosesu eich cais i dalu am brynu clytiau babanod golchadwy.

Caiff eich data eu prosesu:

- Oherwydd bod angen gwneud hynny i gyflawni'r gwaith hwn
- Oherwydd bod angen gwneud hynny er mwyn buddiannau dilys

### 2. Sut gaiff gwybodaeth amdanoch chi ei defnyddio.

Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei phrosesu'n unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016.

Byddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio / gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, fe all gwybodaeth gael ei rhannu gydag adrannau mewnol eraill Cyngor Sir Penfro ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i eraill at ddibenion marchnata. Fodd bynnag, fe all y wybodaeth gael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru wrth archwilio cymorth grant a gawn mewn cysylltiad â'r cynllun clytiau go iawn.

Bydd eich data'n ddiogel a chydgyfrinachol bob amser a byddwn yn casglu'n unig y wybodaeth bersonol sy'n ofynnol i asesu'ch hawl i daliad am brynu clytiau babanod golchadwy ac i gadw golwg ar ddefnyddio'r gwasanaeth.

### 3. Am faint fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a roddwyd i ni am 7 mlynedd i gydymffurfio â rheolau cymorth grant a bydd eich gwybodaeth yn cael ei gwared yn ddiogel pan nad oes ei hangen mwyach.

### 4. Mynediad at fy ngwybodaeth bersonol?

Gallwch ddod i wybod a ydym yn dal unrhyw wybodaeth bersonol trwy wneud cais mynediad yr unigolyn dan Reoliadau Cyffredinol Deddf Diogelu Data 2016. I wneud cais am unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym, mae angen i chi wneud eich cais yn ysgrifenedig a'i gyfeirio at:

Tîm Mynediad at Gofnodion

Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
SA61 1TP

### 5. Eich Hawliau.

Dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae gennych hawliau fel unigolyn y gallwch eu harfer mewn cysylltiad â'r wybodaeth a ddaliwn amdanoch:

- Hawl **mynediad** – mae gennych hawl i ofyn am fynediad at, a chopi o, wybodaeth a ddaliwn amdanoch.
- Hawl i **gywiro** – mae gennych hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Fe all hawl i **gyfyngu** ar brosesu fod yn berthnasol – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, fe all hyn oedi neu ein hatal rhag cyflenwi gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni ddal neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Hawl i **wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Hawl i **beidio â bod yn destun penderfynu a phroffilio awtomataidd**

**6. Cwynion neu Ymholiadau.**

Mae Cyngor Sir Penfro'n ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Oherwydd hyn, byddwn yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn ynghylch hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i dynnu ein sylw os ydynt yn credu bod ein casglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cyflawn o bob agwedd ar gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol gennym. Fodd bynnag, rydym yn barod i roi unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd eu hangen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn i'r cyfeiriad isod:

Jo Hendy, Swyddog Diogelu Data
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
SA61 1TP

E-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk
Ffôn: 01437 764551

Os ydych eisiau cwyno ynghylch sut ydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwylio cyfraith diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF
E-bost caseworker@ico.org.uk  Rhif Ffôn: 0303 123 1113

**7. Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn.**
Byddwn yn adolygu ein rhybudd preifatrwydd yn rheolaidd.